S4/C

Ymrwymiad S4C i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth

Cyhoeddwyd Chwefror 2010
Adolygwyd yn wreiddiol Chwefror 2011
Adolygwyd ymhellach 31 Ionawr 2012

Y Cyd-destun

Cred S4C, fel darlledwr cyhoeddus, fod ganddi ran i'w chwarae o safbwynt hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a thriniaeth deg. Mae hyn yn berthnasol ymhob agwedd o fusnes S4C fel cyflogwr neu fel comisiynydd cynnwys, ac ym mhob cyfathrebiad.

Mae dyletswydd gyffredinol o dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010 (y "Ddeddf") ar S4C i roi sylw dyledus i'r angen am:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan y Ddeddf;
- Hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig[1] berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; a
- Meithrin perthnasoedd da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r personau nad ydynt yn ei rhannu.

Gweithredir y ddyletswydd gyffredinol hon drwy gydymffurfio â'r dyletswyddau penodol a nodir yn y rheoliadau a wnaed yn dilyn y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys:

- cyhoeddi gwybodaeth am sut y mae S4C yn perfformio'r ddyletswydd gyffredinol; a
- chyhoeddi amcanion penodol a mesuradwy y mae S4C yn credu y dylai gyflawni er mwyn hybu amcanion y ddyletswydd gyffredinol.

Yn ogystal â chydymffurfio a'r oblygiadau statudol, mae S4C yn cofleidio cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cyd-destun ehangach, gan werthfawrogi a chlodfori'r ystod o nodweddion a phrofiadau, arddulliau cyfathrebu, ieithoedd, cefndiroedd addysgol, gyrfaoedd neu brofiadau bywyd sydd gan unigolion.

Mae S4C yn cydnabod ac yn parchu cydraddoldeb ac amrywiaeth, a sut y gall hyn effeithio ar werthoedd ac ethos y gweithle. Mae S4C yn annog diwylliant lle caiff yr holl staff eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae gan bob unigolyn dalentau unigryw, ac mae S4C yn hybu datblygiad sgiliau er mwyn cynyddu cyfraniad pob unigolyn i'r eithaf.

Mae S4C yn cydnabod y cyfraniad a wneir gan nifer o sefydliadau o ran codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ym myd darlledu, a rhannu arfer da mewn materion sy'n ymwneud â chyflogaeth a chynhyrchu. Mae S4C yn cefnogi'r egwyddor o ddogfennu a chyhoeddi ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Trwy gyhoeddi'r ymrwymiad hwn, mae S4C yn bwriadu cwrdd â disgwyliadau ei staff, ei gwylwyr, ei chyflenwyr a'r awdurdodau rheoleiddio, gan hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl wasanaethau. Mae S4C yn gwbl ymrwymedig i adeiladu ar ei gwaith hyd yma a rhoi ar waith y camau gweithredu a'r addunedau sy'n gysylltiedig â'r ymrwymiad hwn, a gwneud gwaith pellach i hyrwyddo ac integreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl weithgareddau.

Ymrwymiad S4C

Mae S4C yn ymrwymedig i'r canlynol:-

<u>Rheolwyr S4C</u>

Mae Grŵp Cydlynu Cydraddoldeb wedi ei sefydlu yn S4C er mwyn gweithredu ac adolygu'r Ymrwymiad hwn.

Bydd S4C yn cyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd y cynllun gweithredu yn cynnwys gwybodaeth am sut y mae S4C yn perfformio'r ddyletswydd gyffredinol o dan y Ddeddf ac yn amlinellu amcanion y dylid eu cyflawni er mwyn hybu'r ddyletswydd gyffredinol.

Bydd S4C yn meithrin diwylliant sy'n golygu bod cydymffurfio â'r ymrwymiad hwn a'i hyrwyddo'n cael eu hystyried yn rhan annatod o waith S4C, yr ymlynir wrth yr ymrwymiad ar bob adeg ac y caiff ei gymhwyso mewn ffordd deg a chyson.

Bydd S4C yn sicrhau hyfforddiant cyson ac yn ôl yr angen ar gyfer pob aelod o staff fel eu bod yn llwyr ymwybodol o'r egwyddorion yn yr ymrwymiad hwn a'u bod yn eu deall ac yn eu cofleidio'n llawn.

[1] Mae'r Ddeddf Gydraddoldeb yn amddiffyn 9 o nodweddion gwarchodedig sef oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, a phriodas a phartneriaeth sifil.

Bydd S4C yn cynnwys cyfrifoldeb penodol am gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn disgrifiadau swydd a bydd y llwyddiant yn hyn o beth yn cael ei ystyried a'i werthuso.

O ran S4C fel cyflogwr

Bydd S4C yn hybu cydraddoldeb cyfleoedd ym mhob agwedd o'i gweithgarwch ym maes cyflogaeth, gan gynnwys recriwtio, cyfleoedd hyfforddi, dyrchafiad, budd-daliadau, cyfleusterau cymdeithasol, amodau gwaith, ac wrth reoli a datblygu staff. Er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb cyfleoedd, mae S4C yn cydnabod yr angen i:

- Ddileu'r anfanteision sydd gan bersonau sy'n rhannu nodwedd warchodedig ac sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno;
- Ateb anghenion person sy'n rhannu nodwedd warchodedig sy'n wahanol i anghenion personau nad ydynt yn ei rhannu;
- Annog personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol i gyfranogi mewn bywyd gwaith neu mewn unrhyw weithgaredd arall lle mae nifer anghymesur o isel o bobl sy'n rhannu'r nodwedd yn cyfranogi.

Bydd S4C yn creu amgylchedd gwaith cynhwysol, a pharchus, sy'n hybu cysylltiadau da ymhlith yr holl staff - gan dalu sylw arbennig i'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Cred S4C fod meithrin perthnasoedd da rhwng y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, a rheini sydd heb, yn golygu rhoi sylw arbennig i'r angen i ymafael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth.

Bydd S4C yn monitro ac yn dileu unrhyw wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall anghyfreithlon o fewn y gweithle.

Mae S4C yn cynnal holiadur blynyddol gwirfoddol am gydraddoldeb ac amrywiaeth ymysg ei holl staff er mwyn cael darlun eglur o gyfansoddiad o nodweddion gwarchodedig y gweithlu. Mae'r wybodaeth a geir o'r holiadur hwn yn galluogi S4C i flaenoriaethu'r ardaloedd hynny sydd angen mwy o sylw o ran hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ar gyfer rhaglenni a chynnwys S4C

Nid yw'r Ddeddf yn rhoi oblygiadau ar S4C o ran cynnwys darlledu. Er hyn bydd S4C yn gweithio gyda chynhyrchwyr i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o gydraddoldeb ac amrywiaeth ar y sgrin ar draws ystod mor eang â phosib o raglenni a chynnwys S4C.

Bydd S4C yn sicrhau bod y cynnwys y mae'n ei gomisiynu'n rhoi adlewyrchiad gwell o'r gymuned a'r gwylwyr y mae'n eu gwasanaethu, ac yn sefydlu fframwaith er mwyn monitro'r cynnwys.

Bydd S4C yn gweithio gyda'i phartneriaid yn y sector cynhyrchu er mwyn sicrhau bod eu gweithgareddau hwy eu hunain, fel cynhyrchwyr cynnwys ac fel cyflogwyr, yn gyson ag ymrwymiad S4C.

Bydd S4C yn sicrhau bod y sector yn mabwysiadu canllawiau arfer da, a bod yr holl wybodaeth ar gael ar safle cynhyrchu S4C (www.s4c.co.uk/cynhyrchu).

Gwylwyr a defnyddwyr S4C

Bydd S4C yn sicrhau bod ei hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau mynediad (www.s4c.co.uk/c_access.shtml) a chymorth mewn perthynas â'i rhaglenni a'i chynnwys yn dal i gael ei gyflawni. Mae hyn yn ymestyn i'r gwasanaeth Gwifren Gwylwyr, gwasanaethau dysgwyr Cymraeg (www.s4c.co.uk/dysgwyr), deunydd cymorth mewn perthynas â rhaglenni (www.s4c.co.uk/cymorth) a gwybodaeth ar gyfer ei gwylwyr a'i defnyddwyr.

Bydd S4C yn sicrhau ymwybyddiaeth o'r pwysigrwydd sydd wedi ei briodoli a'r gweithgaredd mae S4C yn ei wneud ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth yn holl weithgaredd cyfathrebu S4C.

Bydd S4C yn ymgynghori â gwylwyr a defnyddwyr i sicrhau bod y gwasanaethau'n adlewyrchu ac yn addasu at eu gofynion, a bydd yn defnyddio'r casgliadau i lywio cynlluniau gweithredu yn y dyfodol. Bydd S4C yn parhau i weithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid a rhoi cymorth iddynt sicrhau a hyrwyddo cydraddoldeb.

Adolygu ac Atebolrwydd

Bydd S4C yn monitro pob agwedd ar yr ymrwymiad hwn er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion a gofynion S4C, a'i fod yn parhau i fod yn berthnasol. Bydd S4C yn cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n deillio o'r ymrwymiad hwn.

Bydd y Tîm Rheoli yn adolygu'r ymrwymiad yn flynyddol, gan bwyso a mesur effaith gweithgareddau S4C mewn perthynas â'r cynllun gweithredu.

Bydd S4C yn adrodd i Ofcom ar ei threfniadau i hybu, mewn perthynas â chyflogaeth, chyfle cyfartal i bawb ac amrywiaeth.

Cyhoeddir yr ymrwymiad hwn yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg S4C. Cyhoeddir y ddogfen hon hefyd yn unol â chanllawiau ar arfer da a hygyrchedd wrth gyfathrebu.

Dylai unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynghylch yr ymrwymiad hwn, neu'r broses o'i weithredu, gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at S4C yn amrywiaeth@s4c.co.uk